SP 11

Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau

Priorities for the Equality,
Local Government and Communities Committee

Ymateb gan: Professor Colin Riordan (Prifysgol Caerdydd)
Response from: Professor Colin Riordan (Cardiff University)

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYD

**President and Vice-Chancellor**
**Llywydd ac Is-Ganghellor**
Professor, Yr Athro
Colin Riordan BA PhD

**Cardiff University**
Main Building
Park Place
Cardiff CF10 3AT
Wales UK

Tel +44(0)29 2087 4835
www.cardiff.ac.uk

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

**Prifysgol Caerdydd**
Prif Adeilad
Plas y Parc
Caerdydd CF10 3AT
Cymru y Deyrnas Unedig

Ffôn +44(0)29 2087 4835
www.caerdydd.ac.uk

26 Awst 2016

Annwyl Mr Griffiths,

**Parthed: Blaenoriaethau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn y Pumed Cynulliad**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynglŷn â'i flaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad. A ninnau'n brifysgol ymchwil flaenllaw gyda llawer o arbenigedd ac adnoddau yn y meysydd a gaiff eu hystyried gan eich Pwyllgor yn ôl pob tebyg, mae Prifysgol Caerdydd mewn sefyllfa gref i gyfrannu at drafodaethau eich Pwyllgor, a byddem yn falch iawn o wneud hynny. Byddem yn croesawu'r cyfle i gael manylion eich rhaglen waith oherwydd byddai hynny'n ein galluogi i ni amlygu arbenigwyr posibl a allai helpu.

Rwyf ar ddeall y bydd eich ymchwiliad yn ystyried materion hynod bwysig a chymhleth gan gynnwys hawliau dynol, tai a mynd i'r afael â thlodi. Mae gan Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, sy'n uchel iawn ei pharch, gryn arbenigedd yn y meysydd hyn a rhai cysylltiedig, ac mae'n hen law ar helpu i gasglu tystiolaeth a chynnig cyngor arbenigol. Byddem yn croesawu'r cyfle i gael rhagor o fanylion am eich rhaglen waith er mwyn i ni allu amlygu grwpiau ac unigolion ymchwil posibl a allai gyfrannu at eich gwaith.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i wahodd eich Pwyllgor i ymweld â'r Brifysgol i weld y gwaith yr ydym yn ei wneud ym maes cydraddoldeb, llywodraeth leol a chymunedau. Gyda lwc, byddai ymweliad o'r fath o ddefnydd i'ch Pwyllgor wrth i chi lunio eich cynllun gwaith ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Os hoffech ymweld â'r Brifysgol neu siarad ag unrhyw un o'n harbenigwyr, cysylltwch â Lleu Williams, Rheolwr Materion Cyhoeddus (WilliamsL59@caerdydd.ac.uk) a Matt Francis, Swyddog Materion Cyhoeddus (FrancisM5@caerdydd.ac.uk) yn y lle cyntaf.

Dymuniadau gorau

Yr Athro Colin Riordan
Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

The Queen's Anniversary Prizes For Higher and Further Education 2013
INVESTORS IN PEOPLE
Athena SWAN Bronze Award
QAA Cymru UK Quality Assured Sicrwydd Ansawdd y DU

Registered Charity, no. 1136855
Elusen Gofrestredig, rhif 1136855